

CYNGOR TREF DOLGELLAU

Cofnodion o Bwyllgor Cyngor Tref Dolgellau a gynhaliwyd ar nos Fawrth, Mai 7, 2019 yn y Llyfrgell Rydd, Dolgellau am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL: Y Cyngorydd Delwyn Evans - Maer
Cynghorwyr Dyfrig Siencyn; Linda Morgan; Ray Stubbs; John Raghoobar;
John Cadwaladr; Ywain Myfyr; Bob Gunton; Branwen Rhys Dafydd a Sion
Edwards

Mr Rhys Williams – Clerc

C9.2019/2020 YMDDIHEURIADAU
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cyngorydd Jo
Checkley (Dirprwy Faer); Nia Williams a Heilyn Williams.

**C10.2019/2020 DATGANIADAU O DDIDDORDEB PERSONOL YN DEILLIO O UNRHYW
WYBODAETH YN YMWNEUD A'R CYFARFOD**

Enw	Eitem	Rheswm
John Raghoobar	NP5/57/930A	Posibilrwydd o fod gyda diddordeb i fod yn drigolyn yn yr adeilad i'r dyfodol
Delwyn Evans	NP5/57/930A	Aelod o Bwyllgor Ffrindiau Cefn Rodyn

**C11.2019/2020 I DDERBYN A CHADARNHAU COFNODION O'R CYFARFOD A
GYNHALIWDYD AR EBRILL 2, 2019**

Derbyniwyd a chadarnhawyd y cofnodion uchod gyda'r 1 x newid canlynol.

C2.2019/2020 Datganiadau o ddiddordeb personol.
Dileu enw Branwen Rhys Dafydd

C12.2019/2020 MATERION YN CODI O'R COFNODION

- C.2018/2019 - Cyfyngiad Cyflymdra 20 m.y.a.**
Cyflwynwyd: Adborth gan y Cyngorydd Dyfrig Siencyn ar gyfarfod
gyda swyddog perthnasol yng Nghyngor Gwynedd ar y mater.
Ymddengys fod y cyfartaledd o drafndiaeth yn y dref yn teithio yn llai
na 20 m.y.a. beth bynnag, felly nad oes angen nawr i sefydlu hyn.
Penderfynwyd: Cadw golwg ar y mater.
- C4.2019/2020.4 Ymweliad i Gyngor Tref Abermaw**
Cyflwynwyd: Adborth gan sawl aelod a'r Clerc ar yr uchod a
gynhaliwyd ar Ebrill 23, 2019 i drafod: CCTV / Goleuadau Nadolig /
Incwm o Feysydd Parcio y Sir. Nodwyd trefn Cyngor Abermaw o osod
cynllun Strategol ar gyfer 'Oes' Cyngor Penodol.
Penderfynwyd: i) Derbyn manylion o'r trydanwr mae Cyngor
Abermaw yn ddefnyddio ar gyfer eu goleuadau Nadolig er mwyn
derbyn cyngor.
Penderfynwyd: ii) Gofyn am wybodaeth o Gyngor Gwynedd ar faint
o incwm buasai yn cael ei gasglu o Faes Parcio'r Marian pe bai y
Cyngor Tref yn cynyddu cost tocynnau parcio 10%.
Penderfynwyd: iii) Ystyried sefydlu is-bwyllgor Prosiectau fel arbrawf
am gyfnod o 3 mlynedd ac i gytuno i gynnal cyfarfodydd dilynol gydag
Abermaw pob 6 mis.
- C4.2019/2020.7 Ymweliad i Guerande. Mehefin 1-2, 2019 – Fete
Medievale.**
Cyflwynwyd: Cynnig i 2 aelod ymweld â'r uchod eleni.
Penderfynwyd: Cofnodi nad oedd neb yn medru mynych. Y Clerc i
hysbysebu Guerande o hyn.

4. **C4.2019/2020.6 Trychineb Llyn Penmaen. Cofeb Barhaol**
Cyflwynwyd: Trafodaeth ar y ffordd ymlaen i sefydlu cofeb barhaol..
Penderfynwyd: i) I geisio gweithio ar y cyd gyda Cyngorau Abermaw a Gwynedd ar hyn.
Penderfynwyd: ii) Y Maer i ymchwilio i mewn i brisiau cychwynol pe bai'r gofeb yn defnyddio deunydd llechen.
5. **C40.2019/2020.5 Wefan y Cyngor**
Cyflwynwyd: Adborth oddi wrth y Cynghorydd Bob Gunton. Y cofnodion o Ardd Bywyd Gwylt Felin Uchaf yn cael ei ychwanegu pan yn bosib.
Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth.

C13.2019/2020 SEFYLLFA ARIANNOL
 Derbyniwyd y sefyllfa ariannol gan y Clerc.

C14.2019/2020 SESIWN RHANNU GWYBODAETH AC ADRODDIADAU

1. **Adroddiadau Cyngorwyr Tref.**

a) **Y Maer**

- 2/4/19 Cyngor Tref
- 3/4/19 Diolch i Co-op Dolgellau am gasglu sbwriel ar strydoedd y dref
- 11/4/19 Ocsiwn yn Llyfrgell Rhydd tuag at ffrindiau Ysbyty Dolgellau
 Diolch i Linda am wneud y gwaith caled o drefnu ac i Dyfrig am fod yn ocsiwnïar ardderchog.
- 19/4/19 Gorymdaith Dydd Gwener y Groglith
 Arddangosfa hen luniau Dolgellau yn y Llyfrgell Rydd
- 29/4/19 Cyfarfod Gwanwyn WI Cymru yn Rhyd y Main

Cwynion mis Ebrill 2019

Parcio Preswyl – Springfield Street
 Trigolion yn cwyno eu bod nhw yn talu i barcio eu ceir wrth ymyl y tŷ ond rhan fwyaf o'r amser mae pobl eraill wedi cymryd eu lle.
 Mae hynny yn golygu fod taliad dirwy ac felly yn talu dwy waith.

Pwy sydd yn gyfrifol am dori gwair mynwent y Crynwyr Dolgellau?

- b) **Y Cynghorydd Ywain Myfyr** – cyfarfod buddiol gyda Cyngor Abermaw.
 - Cynorthwyo Cwmni Ffilmio Cynefin ar dreftadaeth a hanes ddiwylliant gwlan y dref.
 - Gwaith paratoi at Sesiwn Fawr
- c) **Y Cynghorydd Sion Edwards** – gwaith paratoi at Sesiwn Fawr.
- ch) **Y Cynghorydd John Raghoobar** – gwaith cynllunio ar gyfer gwaith ar wal y Parc yn mynd ymlaen.
 Achosion o fandaliaeth yn y Parc – fel aelod o bwyllgor rheoli y Parc byddaf yn cyhoeddi enwau a lluniau unigolion sy'n gyfrifol am hyn yn y dyfodol.
 Pwysleisïaf ni fyddaf yn gwneud hyn yn rhinwedd fy swyddogaeth fel Cynghorydd Tref.
- d) **Y Cynghorydd Bob Gunton** – cyfarfod buddiol gyda Cyngor Abermaw.
 Adroddiad ar broblem gollwng dŵr ar y Marian. Mae gwaith ymchwil ar hyn ar y gweill.
 Problemau parcio yn bodoli o gwmpas Bryntirion a Tyrau Mair.
- dd) **Y Cynghorydd Ray Stubbs** – £500 wedi'i gasglu ar gyfer y Gardd Bywyd Gwylt.

- Problemau gyda bobl ifanc yn yfed yn yr ardd gyda'r hwyr
 - Wedi mynychu cyfarfod gyda Banc Barclays ar ran y Grŵp Mynediad parthed mesuriadau i atal twyll.
- e) **Y Cynghorydd John Cadwaladr** – cyfarfod buddiol gyda Cyngor Abermaw.
- f) **Y Cynghorydd Branwen Rhys Dafydd** – ymdrech i dderbyn dyfynbris lleol ar gyfer baner 'noddi' y Cyngor yn parhau.

Derbyniwyd yr adroddiadau.

Penderfynwyd: Gwahodd y PCSO lleol i gyfarfod o'r Cyngor i drafod materion o bryder, gan gynnwys fandaliaeth oddi amgylch y dref.

2. Adroddiadau Cynghorwyr Gwynedd lleol

a) Y Cynghorydd Linda Morgan

Parhau – pob wythnos twtio 8 pot blodau y Cyngor Tref ac un fasged. Ceisio arbed un fasged o'r sgwâr. Os yn llwyddiannus mi fydd yn cael ei roi yn ôl. Mae'r blodau yn edrych yn dda, llawer yn dal i'w canmol. Dal angen gwirfoddolwyr i dyfrio nhw, o hyn at diwedd Mehefin. Ydi'n bosib i chi adael i Nia neu fi wybod os ydych yn gallu helpu. Fe allwch dyfrio ar unrhyw ddiwrnod ac unrhyw amser sydd yn siwtio chi. Nid oes angen manylion ar wahân i'r ffaith eich bod yn fodlon helpu.

Fel ydych yn gwybod fel rhan o ymgyrch i geisio atal cŵn rhag baeddu yn y dref. Mae'r swyddogion wedi gosod posteri dros dro. Maent hefyd wedi rhoi bagiau baw cŵn i mi roi allan mewn gwahanol lefydd. Rhain yn mynd yn dda ond mae cwynion newydd parthed perchenog Golf Road yn gadael i'w gi baeddu 3 gwaith y diwrnod a ddim yn ei gasglu. Hefyd, Tin Bridge yn y dref. Wedi adrodd hyn.

Parthed: Ocsiwn Ffrindiau Ysbyty Dolgellau – falch o ddweud ein bod nawr wedi casglu £985 gyda £20 ar ei ffordd, byddwn yn fuan iawn wedi cyrraedd y targed o £1,000.

4/4/19 Wedi cael gwahoddiad i fynychu Gwesty Ffynnon – gwerth chweil, Wow ffactor ac yn wych i'r dref. Gobeithio y byddant yn llwyddiannus a dymunaf pob lwc iddynt. Dodrefn del, ac mae'r ystafelloedd gwely yn "stunning", ystafell fwyta prydferth a bwyd gwych. Golygfa bendigedit a digon o lefydd parcio – gwych i ymwelwyr ac i bobl lleol.

4/4/19 Cyfarfod gyda Phil Leeds i drefnu symud sêr Teresa i'r Marian. Falch iawn o'r lleoliad newydd, dim ond angen symud y 150 Tiwlips a Cenhin Pedr. Prosiect criced yn edrych yn dda, gweddu gyda'r ardal, ddim yn effeithio'r olygfa, gwych i blant a phobl ifanc i ymarfer eu sgiliau criced. Da i iechyd a lles y plant. Cyfleuster chwaraeon gwych arall i'r dref. Da iawn i pawb oedd yn rhan ohonno.

10/4/19 Cyfarfod safle ar Ffordd Pencefn a Cae Deintur, swyddog wedi cytuno gyda fy syniadau – hynp cyflymdre ychwanegol, ardal croesi wedi ei godi. Parthed y cyflymdra fe ellir trefnu parth 20 mya o uwchben y Rheithordy i lawr i'r prif ffordd, hefyd wedi cytuno i mwy o arwyddion a rhai gwell.

Cynnig wedi ei roi ymlaen am llinellau dwbwl o blwch post Cae Deintur ogwmpas blaen yr Ysgol – mae'r ardal yma wedi bod yn bryder am hir iawn.

Wedi cael ebost gan Alan Edward, Swyddog Client Uned Datblgu Eiddo Cyngor Gwynedd parthed trefniadau eraill i Ffordd Pencefn.

Wedi cael ebost gan Dylan Wynn Jones, Rheolwr Trafnidiaeth yn cadarnhau be gytunwyd yn y cyfarfod safle.

11/4/19 Ocsiwn i'r Ysbyty – digwyddiad gwych.

Parthed: Digwyddiad Trafnidiaeth Cyhoeddus yn y Llyfrgell Rydd – mae'r ymgynghoriad yma nawr wedi cau. Mi fyddai'n dilyn hwn i fyny, gobeithio fod pawb wedi nodi eu pryderon.

Wedi rhoi cais i ail-baentio croesfan Zebra ar Bont Fawr. Angen dilyn hyn i fyny.

Cyfarfod gyda swyddog ynglŷn ag Ardd Fawr, dywedodd bydd y gwaith yn cael ei wneud yn fuan. Wal wedi ei gwblhau hefyd wal bach uwch ei ben a ffens, 4 bolard arall, gwaith twt iawn – parhau.

Hefyd edrych ar ail rhes Cae Deintur yn dilyn cais – disgwyl i glywed gan Priffyrdd – parhau.

Cefnogi Bore Coffi'r Eglwyd yng Ngwesty'r Llong Frenhinol.

Priffyrdd i ymweld tu allan i Coleg Meirion Dwyfor i lenwi tyllau yn y lon – parhau.

Arwydd yn Fronallt – parhau.

Parc bins yn parhau, byddaf yn adrodd yn ôl yng nghyfarfod nesaf.

Delio gyda cais i wagio bin baw cŵn ym mhen pella'r Marian – parhau.

Stad Ddiwydiannol – sbwriel a coed – parhau.

Angen cyfarfod gyda Pwyllgor y Llyfrgell Rhydd.

Parhau – ebyst parthed parcio ger Gwesty'r Llong Frenhinol, gobeithio cael ymweliad safle. Cytunwyd i byrhau y llinellau dwbwl, mwy o wybodaeth i ddilyn.

Diwrnod Ffair. 10 stondin ym Maes Parcio Marian, un yn Sgwâr Eldon. Angen gadael i Cyngor Gwynedd wybod y dyddiad fel gellir rhoi poster i fyny parthed y bysiau. Son am Coginio India.

Pryderon am Fflatiau Maes y Felin, sbwriel yn tu cefn a tu blaen.

Pryderon am sbwriel tu cefn i Siop Harris, fflatiau uwchben.

Pryder am sbwriel yn Sgwâr Eldon, parthed fflat.

I gyd wedi eu cyfeirio ymlaen.

Val Wilkins yn gofyn am bin newydd – parhau

Pryder parthed Siopau ac Adeiladau gwag:
Sulis; Siop Hen Bethau (antiques – Nyrsus); Dipsy
Dragon; hen siop JV; Canolfan Wybodaeth; Tŷ
Mervinian; Banc Nat West; ger Kebab.
Unrhyw wybodaeth parthed perchnogion a.y.b. neu ar
werth?
Gellir gwneud gyda Amgueddfa yn Nolgellau

Gellir gwneud gydag arwyddion / hysbysfwrdd, wedi ei
ddylunio yn dda gyda map y dref ar Sgwâr Eldor a'r
Maes Parcio.

b) Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn

Cadeirio Bwrdd Trosolwg Traswfynydd sy'n canolbwyntio ar
ddyfodol y pwerdy. Cyfarfod diweddar o lywodraethwyr Ysgol Bro
Idris – derbyniwyd eglurhad ar statws y groesfan goch rhwng
safle'r Cynradd a'r Babanod, megis mae'n "indicative crossing".

Cyfarfod o Fforwm Wledig Cymru, gyda ffocws ar broblemau
eiddo gwag. Nawr yn gorfod gweithio gyda'r 5ed Gweinidog i
faterion gwledig yn y Llywodraeth Prydeinig sydd ddim yn help i
hybu perthynas defnyddio.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blyneddol Cyngor Gwynedd yn ddiweddar a
chafwyd canmoliaeth i Wasanaeth Plant y Cyngor oddi wrth y
Corff Craffu Cenedlaethol.

Cynhaliwyd hefyd adolygiad o drefn a strwythur rheolaethol y
Cyngor gyda arbedion ariannol yn debygol o ddeilio o'r gwaith
yma.

Derbyniwyd yr adroddiadau gyda diolch

C15.2019/2020 GOHEBIAETH

- 1. Hwyl yr Haf 27/07/2019.**
Cyflwynwyd: Cais i ddefnyddio'r Marian ar gyfer yr uchod.
Penderfynwyd: Cytuno i'r cais ar ran ymddiriedolaeth y Marian.
- 2. Cartrefi Cymunedol Gwynedd**
Cyflwynwyd: Hysbyseb o eiddo gwag i'w osod - rhif 5 Henfaes.
Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth.
- 3. Iola Rowlands, Tyddyn Du – mynwent y Crynwyr, Tabor**
Cyflwynwyd: Ymholiadau oddi wrth yr uchod ynglŷn â phwy sy'n
gyfrifol am dorri gwair a twtio'r fynwent. Eglurodd y Maer ei fod wedi
darganfod pa gapel sy'n gyfrifol bellach. Bydd hefyd yn cyfeirio'r cais
yma am gymorth i sylw'r gwasanaeth prawf.
Penderfynwyd: Derbyn y wybodaeth

C16.2019/2020 CEISIADAU CYNLLUNIO

NP5/57/1102B – DIWYGIAD ANSYLWEDDOL I GANIATAD CYNLLUNIO NP5/57/1102 DYDDIEDIG 13.10.2015 I NEWID MANYLION A MAINT Y WALIAU CYNNAL AR Y FFIN DEHEUOL YN CYNNWYS LLEIHOU HYD Y WAL A HEPGOR Y PILERI A RHEILIAU O AMGYLCH Y MAES PARCIO YSGOL BRO IDRIS, DOLGELLAU. LL40 2YW – **Dim Gwrthwynebiad**

NP5/57/930A – ADEILADU ESTYNIADAU I DDARPARU LLE LOLFA YCHWANEGOL, YSTAFELL HAUL, STORFA AC YSTAFELL TRIN GWALLT CEFN RODYN, DOLGELLAU. LL40 1UG – **Mae'r Cyngor yn cefnogi'r cais ar sail y bydd y gwaith yma yn ychwanegu at yr adnoddau sydd ar gael I drigolion yr adeilad yma.**

NP5/57/LB343A – CANIATAD ADEILAD RHESTREDIG I DYNNU CORN SIMDDE LAWR GAN YCHWANEGU HAMBWRDD PLWM COD 5 A'I AIL-ADEILADU YN UNION A'R MANYLION PRESENNOL 2 RHES IDRIS, FFORDD Y GADER, DOLGELLAU. LL40 1RT – **Dim Gwrthwynebiad**